# PGCE WALES
# TAR CYMRU

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU

**July 2021 / Gorffennaf 2021**

## End of Year Message - PGCE 2 | TAR 2 - Neges Diwedd y Flwyddyn



**Dear Partnership**

As we approach the end of an academic year like no other, please can I take this opportunity to thank each and every one of you for the contributions you have made to supporting the first year of the OU ITE Partnership and crucially, to the experiences of our student teachers.

To the headteachers who have worked tirelessly to include their students in their school communities, no matter the challenges; for every single daily interaction between a mentor and their mentee; to the practice tutors who have risen to the challenges of remote assessment of teaching; to the school coordinators who have become masters of the art of student timetabling in a global pandemic; to the students who never gave up, despite the difficulties of learning in that pandemic... to each and every one of you, we say thank you.




**Annwyl Bartneriaeth**

Wrth i ni agosáu at ddiwedd blwyddyn academaidd heriol, a gaf i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am eich cyfraniadau gwerthfawr wrth gefnogi blwyddyn gyntaf y Bartneriaeth AGA y Brifysgol Agored ac yn fwyaf oll, yn sicrhau profiadau cadarnhaol i'n hathrawon dan hyfforddiant.

I'r penaethiaid sydd wedi gweithio'n ddiflino, ni waeth yr heriau, i gynnwys ein myfyrwyr yn eich cymunedau ysgol; ar gyfer pob rhyngweithiad dyddiol rhwng mentor a'i fyfyriwr; i'r tiwtoriaid ymarfer sydd wedi ymateb i heriau

asesu addysgu o bell; i'r cydgysylltwyr ysgolion sydd wedi dod yn feistri ar y grefft o amserlennu myfyrwyr mewn pandemig byd-eang; i'r myfyrwyr a rhoddodd eu gorau glas, er gwaethaf anawsterau dysgu yn y pandemig hwnnw ... i bob un ohonoch, dywedwn ddiolch.

## We've come a long way



As a Partnership, we have accredited two new and innovative routes into teaching and grown into a collective of over two hundred partner schools, supporting student teachers across the whole of Wales. As a Partnership, we know that we operate differently to those partnerships of the past, and indeed, as an all-Wales online provider of the only part time and employment-based routes, this further enhances our unique qualities.

Undoubtedly, this has offered exciting opportunities for close joint working to bring about new and innovative ways of working, but it has brought with it some challenges too. We understand that at times there have been frustrations about systems as we have all responded quickly and in an agile way to working online.

As a new and different programme, we also have complexity and this has sometimes reflected in the volume of information and documentation shared. Responding to the pandemic has meant adapting and changing processes, often at speed, and with a need to communicate quickly with a vast number of people. There are now key lessons we have learnt from these experiences and some new ways of doing things in the future.

## Rydym wedi cyflawni llawer


Fel Partneriaeth, rydym wedi achredu dau lwybr newydd sy’n arloesol i addysgu ac wedi tyfu i fod yn gasgliad o dros ddau gant o ysgolion partner, gan gefnogi athrawon dan hyfforddiant ledled Cymru gyfan. Fel Partneriaeth, rydym yn gwybod ein bod yn gweithredu'n wahanol i bartneriaethau'r gorffennol, ac yn wir, fel yr unig ddarparwr ar-lein yng Nghymru ar gyfer llwybrau rhan amser a chyflogedig, mae hyn yn cynyddu ein rhinweddau unigryw ymhellach.

Heb os, mae hyn wedi cynnig cyfleoedd cyffrous i weithio yn agos ac ar y cyd sicrhau ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, ond mae wedi dod â rhai heriau hefyd. Rydym yn deall y bu rhwystredigaethau ynghylch systemau ar adegau gan ein bod i gyd wedi ymateb yn gyflym ac mewn ffordd ystwyth i weithio ar-lein.

Fel rhaglen newydd a gwahanol, mae gennym gymhlethdod hefyd ac mae hyn weithiau wedi adlewyrchu yn nifer y wybodaeth a'r ddogfennaeth a rennir. Mae ymateb i'r pandemig wedi golygu addasu a newid prosesau, yn aml ar gyflymder, a bod angen cyfathrebu'n gyflym â nifer helaeth o bobl. O’r herwydd y profiadau hyn, rydym bellach wedi dysgu gwersi allweddol a ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol.



## New Partnership Sharepoint Site




In the new academic year, we look forward to launching our new Partnership sharepoint - a one-stop-shop for all school facing resources, which will now replace schools' use of the OU website (though you can still access student-facing resources there should you wish).

The Partnership site will feature dedicated resource areas according to each role, an interactive calendar of key dates and a discussion area where all key communications will be posted. Mentors and practice tutors will be able to access their students' e-portfolios and there will be a new space for Partnership Research resources. All reports and forms will be available in each area according to user need, with some taking a new e-form format. Furthermore, we are reviewing the number of materials available and developing a more streamlined approach to communication. We hope that this will respond to the vast majority of the feedback we have received this year and significantly improve the experiences of school-based staff.

## Ardal SharePoint Partneriaeth Newydd

Yn y flwyddyn academaidd newydd, edrychwn ymlaen at lansio ein hardal SharePoint Partneriaeth newydd – ‘siop un stop’ ar gyfer yr holl adnoddau ysgol. Bydd yr ysgolion yn defnyddio'r ardal newydd hwn yn hytrach na wefan y Brifysgol Agored (er y gallwch barhau i gael gafael ar adnoddau myfyrwyr yno, os dymunwch).

Bydd safle'r Bartneriaeth yn cynnwys meysydd adnoddau pwrpasol yn ôl pob rôl, calendr rhyngweithiol o ddyddiadau allweddol ac ardal drafod lle bydd yr holl gyfathrebiadau allweddol yn cael eu postio. Bydd mentoriaid a thiwtoriaid ymarfer yn gallu cyrchu e-bortffolios eu myfyrwyr a bydd lle newydd ar gyfer adnoddau Ymchwil Partneriaeth. Bydd adroddiadau a ffurflenni ar gael ym mhob ardal yn unol ag angen y defnyddiwr, gyda rhai yn cymryd fformat e-ffurflen newydd. At hynny, rydym yn adolygu nifer y deunyddiau sydd ar gael ac yn datblygu dull symlach o gyfathrebu. Gobeithiwn y bydd hyn yn ymateb i fwyafrif helaeth yr adborth a gawsom eleni ac yn gwella profiadau staff yn yr ysgol yn sylweddol.





### Inductions & Refresher Sessions

There will be induction and refresher sessions available for all school-based staff and these will take a combined approach of asynchronous materials and live sessions taking place early in the new term. We are also introducing a specific School Coordinator guide and new dedicated live sessions for coordinators, separate to mentors.

### Sesiynau Sefydlu a Gloywi

Bydd sesiynau sefydlu a gloywi ar gael i'r holl staff bartneriaeth yn yr ysgol a bydd y rhain yn defnyddio dull cyfun o ddeunyddiau asyncronig a sesiynau byw yn gynnar yn y tymor newydd. Rydym hefyd yn cyflwyno canllaw Cydlynydd Ysgol benodol a sesiynau byw pwrpasol newydd ar gyfer cydgysylltwyr, ar wahân i fentoriaid.

### Arrangements for Students - Autumn Term



In the new academic year, we anticipate welcoming over two hundred and seventy students. We will welcome back our inaugural cohort for their second year and welcome many new students in all routes and phases. Arrangements for students are as follows:

- **Salaried students - Year 2** - final module commences in September (timetable arrangements confirmed in summer and starts from the beginning of Autumn term).
- Part time students - year 2 - module commences in September with an initial phase of online study and practice learning likely commencing from October onwards.
- **Salaried Students - Year 1** - programme commences in October. Timetable arrangements to be in place by end of September. Students attend online induction events and complete 'getting started' activities.
- **Part time students - Year 1** - programme commences in October with a phase of online learning. Students to make early contact with school coordinators to arrange 25 days' school experience.

The Partnership office will be continuing to work tirelessly over the summer to ensure that placement and assessment arrangements are all in place at the earliest opportunity.

Please may I ask all School Coordinators to keep an eye out for Partnership emails in the final week of term and confirm any arrangements in relation to placements as soon as possible, as this will enable timely arrangements to be made for the new academic year.

Lead partner schools are asked to confirm the availability of practice tutors as soon as possible, keeping in mind that we now need a greater number of tutors. There will be a briefing session for all Practice Tutors early in each module to confirm arrangements for lesson observations dependent on the context of the pandemic in the Autumn term.

## Trefniadau ar gyfer Myfyrwyr - Tymor yr Hydref



Rydym yn rhagweld bydd dros ddau gant saith deg o fyfyrwyr ar y rhaglen yn y flwyddyn academaidd newydd. Byddwn yn croesawu ein carfan agoriadol yn ôl am eu hail flwyddyn ac yn croesawu llawer o fyfyrwyr newydd ym mhob llwybr a chyfnod. Mae'r trefniadau ar gyfer myfyrwyr fel a ganlyn:

- **Myfyrwyr Cyflogedig - Blwyddyn 2** - mae'r modiwl terfynol yn cychwyn ym mis Medi (cadarnheir trefniadau amserlen yn yr haf ac mae'n dechrau o ddechrau tymor yr Hydref).
- **Myfyrwyr rhan amser - blwyddyn 2** - modiwl yn cychwyn ym mis Medi gyda cham cychwynnol astudio ar-lein ac ymarfer dysgu yn debygol o ddechrau o fis Hydref ymlaen.
- **Myfyrwyr Cyflogedig - Blwyddyn 1** - y rhaglen yn cychwyn ym mis Hydref. Trefniadau amserlen i fod ar waith erbyn diwedd mis Medi. Mae myfyrwyr yn mynychu digwyddiadau sefydlu ar-lein ac yn cwblhau gweithgareddau 'cychwyn arni'.
- **Myfyrwyr rhan amser - Blwyddyn 1** - rhaglen yn cychwyn ym mis Hydref gyda chyfnod o ddysgu ar-lein. Myfyrwyr i gysylltu'n gynnar â chydlynwyr ysgolion i drefnu 25 diwrnod o brofiad ysgol.

Bydd y swyddfa Bartneriaeth yn parhau i weithio'n dros yr haf i sicrhau bod trefniadau lleoli ac asesu i gyd ar waith cyn gynted â phosibl.

A gaf ofyn i bob Cydlynydd Ysgol gadw llygad am e-byst Partneriaeth yn ystod wythnos olaf y tymor a chadarnhau unrhyw drefniadau mewn perthynas â lleoliadau cyn gynted â phosibl, gan y bydd hyn yn galluogi i drefniadau amserol gael eu gwneud ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Gofynnir i ysgolion partner arweiniol gadarnhau bod tiwtoriaid ymarfer ar gael cyn gynted â phosibl, gan gofio bod angen mwy o diwtoriaid arnom yn awr. Bydd sesiwn friffio i'r holl Diwtoriaid Ymarfer yn gynnar ym mhob modiwl i gadarnhau trefniadau.



## Haf Hapus

Yn olaf, dymunwn seibiant haeddiannol i chi gyd a gobeithio y cewch gyfle i fwynhau yn yr heulwen (siawns na chawn ni rai?!) gyda ffrindiau a theulu, ac i ail-wefru'r batris mewn amser ar gyfer y tymor newydd!

Gan ddymuno haf dedwydd i chi i gyd ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi eto yn y tymor newydd.

Dymuniadau gorau,

Sarah

**Sarah Stewart** – Director of PGCE

## Happy Holidays

Finally, I hope that every member of the Partnership enjoys a well-deserved rest over the summer, an opportunity to enjoy in the sunshine (surely we'll have some?!) with friends and family, and to re-charge the batteries in time for the new term!

Wishing you all a fantastic summer break and I look forward to working with you again in the new term.

Best wishes,
Sarah

**Sarah Stewart** - Cyfarwyddwr TAR

**The Open University in Wales**
**Brifysgol Agored yng Nghymru**

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales, and a charity registered in Scotland (SC 038302). The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority.

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Brenhinol (RC000391), yn elusen a eithrir yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC038302). Awdurdodir a rheoleiddir Y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Unsubscribe / Dad-danysgrifio